OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 1841 (Cy.167)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Coleg Garddwriaeth Cymru (Diddymu) 2009

Gwnaed - - - -	*9 Gorffennaf 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*10 Gorffennaf 2009*
Yn dod i rym - -	*1 Awst 2009*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 27 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**1**) ("y Ddeddf") i'r Ysgrifennydd Gwladol ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy.(**2**)

Yn unol ag adran 27(7)(a) o'r Ddeddf, maent wedi ymgynghori â'r gorfforaeth addysg bellach o'r enw Coleg Garddwriaeth Cymru(**3**) ("CGC"). Yn unol ag adran 27(2), gwneir y Gorchymyn gyda chydsyniad y gorfforaeth addysg bellach o'r enw Coleg Glannau Dyfrdwy(**4**) a'r gorfforaeth addysg uwch o'r enw Prifysgol Glyndŵr(**5**).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Coleg Garddwriaeth Cymru (Diddymu) 2009 a daw i rym ar 1 Awst 2009.

Diddymu a hrosglwyddo

2. Ar 1 Awst 2009 diddymir CGC a bydd—

(a) pob eiddo, hawl a rhwymedigaeth CGC a bennir yn Rhan 1 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn cael ei drosglwyddo neu ei throsglwyddo i Brifysgol Glyndŵr, sef corff corfforaethol a sefydlwyd at ddibenion sy'n cynnwys darparu cyfleusterau neu wasanaethau addysgol;

(**1**) 1992 p.13. Diwygiwyd adran 27 gan baragraff 16 o Atodlen 1 i Orchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Cyngor) 2005 (O.S. 2005/3238) a chan baragraff 8 o Atodlen 1 i Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 2007 (p.25).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf lywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) Fe'i sefydlwyd gan Orchymyn Addysg (Corfforaethau Addysg Bellach) 1992 (O.S. 1992/2097).

(**4**) Fe'i sefydlwyd gan Orchymyn Addysg (Corfforaethau Addysg Bellach) 1993(O.S. 1993/97).

(**5**) Cafodd ei sefydlu gan Orchymyn Addysg (Corfforaethau Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 3) 1993 (O.S. 1993/56) o dan yr enw 'North East Wales Institute of Higher Education' (Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru) a'i hailenwi'n Brifysgol Glyndŵr ar 3 Gorffennaf 2008.

(b) pob eiddo, hawl a rhwymedigaeth CGC a bennir yn Rhan 2 o'r Atodlen yn cael ei drosglwyddo neu ei throsglwyddo i Brifysgol Glyndŵr a Choleg Glannau Dyfrdwy i'w dal ar ymddiried iddynt eu hunain fel tenantiaid ar y cyd mewn cyfrannau cyfartal ac ar ymddiried i'w defnyddio at ddibenion elusennol sydd at ddibenion addysgol yn unig;

(c) pob eiddo, hawl a rhwymedigaeth arall CGC sydd heb ei gynnwys neu ei chynnwys ym mharagraffau (a) a (b) o'r Erthygl hon yn cael ei drosglwyddo neu ei throsglwyddo i Goleg Glannau Dyfrdwy.

Trosglwyddo Staff

3. Bydd adran 26(2), (3) a (4) o'r Ddeddf yn gymwys i unrhyw berson sy'n gyflogedig gan CGC yn union cyn 1 Awst 2009 fel petai'r cyfeiriadau yn yr adran honno—

(a) at berson y mae'r adran honno yn gymwys iddo yn gyfeiriad at berson sy'n gyflogedig fel hynny;

(b) at y dyddiad gweithredol yn gyfeiriadau at 1 Awst 2009;

(c) at y trosglwyddwr yn gyfeiriadau at CGC;

(ch) at y gorfforaeth yn gyfeiriadau at Goleg Glannau Dyfrdwy, ac eithrio mewn perthynas â'r cyflogeion hynny a ddynodir yn Rhan 3 o'r Atodlen ("Cyflogeion Rhan 3");

(d) at y gorfforaeth mewn perthynas â'r Cyflogeion Rhan 3 yn gyfeiriadau at Brifysgol Glyndŵr.

J Griffiths
Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, o dan awdurdod y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

9 Gorffennaf 2009